**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddEAAL@cynulliad.cymru

25 Ebrill 2018

Annwyl David

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 23 Mawrth ynghylch trefniadau craffu ar gyfer y pwerau dirprwyedig sydd wedi'u gosod ym Mil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Mae'ch llythyr yn cyfeirio at lythyr Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd ar 16 Mawrth, ac adroddiad diweddar y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch craffu ar reoliadau a wneir dan y Bil.

Amgaeaf gopi o lythyr Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip at gadeirydd y Pwyllgor, dyddiedig 27 Mawrth, sy'n egluro safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phob un o'i argymhellion.

Rydych hefyd yn gofyn am ein safbwynt ynghylch deunydd esboniadol gwell y mae'r Bil yn gofyn amdano i gyd-fynd â rheoliadau sy'n cael eu gosod gerbron y Senedd dan y pwerau dirprwyedig sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

Ni wnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wneud argymhellion mewn perthynas â'r wybodaeth hon, felly nid yw'n cael sylw yn ein hymateb i'w adroddiad. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod yr wybodaeth y disgwylir iddi gael ei chynnwys yn y datganiadau yn ddeunydd y byddem yn disgwyl ei ddarparu beth bynnag, felly nid ydym yn gweld bod angen ymestyn y gofyniad i Weinidogion Cymru gynhyrchu deunydd esboniadol mewn perthynas â rheoliadau sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd ac at gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.